**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1331

# Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Atgyfeiriadau ac Apelau) (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cymru) 2015

## RHAN 1

## Y Weithdrefn ar gyfer Apelau Deiliad Tŷ, Apelau Caniatâd Hysbyseb ac Apelau Masnachol Bach

### Hysbysu ynghylch cael apêl

**4.** Rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo'n ymarferol wedi i benderfyniad gael ei wneud o dan adran 319B o'r Ddeddf, hysbysu'r apelydd a'r awdurdod cynllunio lleol, mewn ysgrifen, o'r canlynol—

(a) y dyddiad dechrau;

(b) y rhif cyfeirnod a ddyroddwyd i'r apêl;

(c) y bydd yr apêl yn dilyn y gweithdrefnau a nodir yn Rhan 1 o'r Rheoliadau hyn; a

(d) y cyfeiriad ar gyfer anfon cyfathrebiadau ysgrifenedig at Weinidogion Cymru ynglŷn â'r apêl.

### Holiadur

**5.** Rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol anfon y dogfennau canlynol at Weinidogion Cymru, a chopïau ohonynt at yr apelydd, er mwyn iddynt eu cael o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad dechrau—

(a) holiadur wedi ei gwblhau; a

(b) copi o bob un o'r dogfennau y cyfeirir atynt yn yr holiadur.

### Hysbysu personau sydd â buddiant

**6.**—(1) Rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol, o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad dechrau, roi hysbysiad ysgrifenedig o'r apêl i'r canlynol—

(a) unrhyw berson a hysbyswyd neu'r ymgynghorwyd ag ef yn unol â'r Ddeddf neu orchymyn datblygu ynglŷn â'r cais; a

(b) unrhyw berson arall a gyflwynodd sylwadau i'r awdurdod cynllunio lleol ynglŷn â'r cais hwnnw.

(2) Rhaid i hysbysiad o dan baragraff (1)—

(a) datgan enw'r apelydd a chyfeiriad y safle y mae'r apêl yn ymwneud ag ef;

(b) disgrifio'r datblygiad y mae'r cais yn ymwneud ag ef;

(c) nodi'r materion yr hysbyswyd yr apelydd a'r awdurdod cynllunio lleol ohonynt o dan reoliad 4; a

(d) datgan y bydd unrhyw sylwadau a gyflwynwyd i'r awdurdod cynllunio lleol mewn perthynas â'r cais, cyn ei benderfynu, yn cael eu hanfon gan yr awdurdod cynllunio lleol at Weinidogion Cymru a'r apelydd, ac yn cael eu hystyried gan Weinidogion Cymru wrth benderfynu'r apêl, oni thynnir y sylwadau yn ôl mewn ysgrifen o fewn 4 wythnos ar ôl y dyddiad dechrau.

### Sylwadau

**7.**—(1) Yr hysbysiad perthnasol a'r dogfennau a gyflwynir ynghyd â'r hysbysiad perthnasol yw'r hyn a gynhwysir yn sylwadau'r apelydd mewn perthynas â'r apêl.

(2) Yr holiadur cyflawn a'r dogfennau a anfonir gyda'r holiadur cyflawn yw'r hyn a gynhwysir yn sylwadau'r awdurdod cynllunio lleol mewn perthynas â'r apêl.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cael y sylwadau, anfon copi o'r sylwadau a wnaed gan yr awdurdod cynllunio lleol at yr apelydd a rhaid iddynt anfon copi o'r sylwadau a wnaed gan yr apelydd at yr awdurdod cynllunio lleol.

### Gwybodaeth bellach

**8.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru, mewn ysgrifen, ei gwneud yn ofynnol bod yr apelydd, yr awdurdod cynllunio lleol a phersonau eraill sydd â buddiant, yn darparu pa bynnag wybodaeth bellach a bennir sy'n berthnasol i'r apêl.

(2) Rhaid darparu'r cyfryw wybodaeth mewn ysgrifen o fewn pa bynnag gyfnod a bennir gan Weinidogion Cymru.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru ddiystyru unrhyw wybodaeth bellach oni ddarparwyd yr wybodaeth honno yn unol â pharagraff (1).

### Trosglwyddo apêl o Ran 1

**9.**—(1) Ar unrhyw adeg cyn penderfynu apêl, caiff Gweinidogion Cymru benderfynu nad yw'r gweithdrefnau a nodir yn y Rhan hon bellach yn addas ar gyfer yr apêl honno.

(2) Pan wneir penderfyniad o'r fath, rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r apelydd a'r awdurdod cynllunio lleol mewn ysgrifen o'r canlynol—

(a) y trosglwyddir yr apêl o'r gweithdrefnau a nodir yn Rhan 1 o'r Rheoliadau hyn; a

(b) y bydd yr apêl yn mynd ei blaen yn unol â Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn, i ba bynnag raddau a bennir gan Weinidogion Cymru ar ôl ystyried unrhyw gamau a gymerwyd eisoes mewn perthynas â'r achos honno.

### Penderfynu ar apelau deiliad tŷ, apelau caniatâd hysbyseb ac apelau masnachol bach o dan Ran 1

**10.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru, ar ôl rhoi hysbysiad ysgrifenedig o'u bwriad i wneud hynny i'r apelydd ac i'r awdurdod cynllunio lleol, fynd ymlaen i wneud penderfyniad ar apêl gan gymryd i ystyriaeth y sylwadau hynny yn unig a anfonwyd o fewn y terfynau amser perthnasol, pan fo'n ymddangos bod deunydd digonol i'w galluogi i gyrraedd penderfyniad.

(2) Ym mharagraff (1) ystyr "terfynau amser perthnasol" ("*relevant time limits*") yw'r terfynau amser a ragnodir gan y Rheoliadau hyn, neu pan fo Gweinidogion Cymru wedi arfer y pŵer o dan reoliad 19, unrhyw derfyn amser diweddarach.

**Hysbysu ynghylch penderfyniad ar apelau deiliad tŷ, apelau caniatâd hysbyseb ac apelau masnachol bach o dan Ran 1**

**11.** Rhaid i Weinidogion Cymru, mewn ysgrifen, hysbysu'r canlynol o'u penderfyniad ar apêl a'u rhesymau dros gyrraedd y penderfyniad hwnnw—

(a) yr apelydd;

(b) yr awdurdod cynllunio lleol;

(c) unrhyw berson â buddiant a ofynnodd am gael ei hysbysu o'r penderfyniad; a

(d) unrhyw berson arall a ofynnodd am gael ei hysbysu o'r penderfyniad, ac yr ystyria Gweinidogion Cymru y byddai'n rhesymol ei hysbysu.